# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 11-06

### Dyddiad y cyfarfod: 7 Rhagfyr 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 11.35
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Minister) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

#### Eraill yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Tamsin Dunwoody (eitem 5 yn unig) | Y Dirprwy Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adolygu |
| Dr Virginia Chambers | Technoleg ac Arloesi |

| | |
|---|---|
| Alison Jones | Trafnidiaeth Cymru |
| Jonathan Jones | Croeso Cymru |
| James Price | Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth |
| Richard Rossington | PaSG |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr Trafnidiaeth Cymru |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc y Pwyllgor |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol GSC |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

1.2 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod o'r gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a materion a gododd**
**Papur: EIN(2) 09-06 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd**
**EIN(2) 10-06 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd**
**EIN(2) 11-06 – Camau heb eu cymryd**

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd a 22 Tachwedd yn gywir.

2.2 Byddai'r Gweinidog yn paratoi nodyn am lofaoedd dwfn ar gyfer y cyfarfod ar 17 Ionawr.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**
**Papur: EIN(2) 11-06 p1- Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

**Camau i'w cymryd:**

- Byddai'r Gweinidog yn paratoi nodyn i'r Pwyllgor am yr adroddiadau a gomisiynodd Canghellor y Trysorlys.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am yr ynni y mae derbynyddion cyfryngau

digidol yn ei ddefnyddio o’i gymharu â derbynyddion cyfryngau analog.

- Byddai’r Gweinidog yn paratoi nodyn am gyfansoddiad Grwp Ffrwd Waith Cydweithio Tiriogaethol.
- Byddai’r Gweinidog yn paratoi nodyn i’r Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o ddarparu gweithdai ar gyfer y rheini sydd ynghlwm wrth gomisiynu cytundebau’r sector cyhoeddus yn ogystal â Gweithdai Tendro Mentrau Cymdeithasol.
- Byddai’r Gweinidog yn rhoi gwybodaeth am yr hyn a oedd yn cael ei wneud i ddatblygu cysylltiadau â Sefydliadau Addysg yng Ngogledd Cymru.
- Byddai’r Gweinidog yn rhoi manylion y modelau a ddefnyddir i ragweld y goblygiadau o ran costau sydd ynghlwm wrth gynlluniau teithio rhad ar fysiau a threnau ar draws Cymru.
- Byddai’r Gweinidog yn paratoi nodyn i’r Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd y gallai Ymddiriedolaeth Carbon Cymru roi cyngor ynghylch materion yn ymwneud â thrafnidiaeth.

**Eitem 4: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth**
**Paper: EIN(2) 11-06 p2**

4.1 Ystyriodd y pwyllgor y Rhestr o Is-ddeddfwriaeth. Ni nodwyd unrhyw eitemau o Is-deddfwriaeth i’r Pwyllgor graffu ymhellach arnynt.

**Eitem 5: Gwerthuso’r Grant Diogelwch Ffyrdd Blynyddol**
**Papur: EIN(2) 11-06 (p3)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau’r Grant Diogelwch Ffyrdd Blynyddol.

**Eitem 6: Ymateb y Gweinidog i Adolygiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau o Bolisi Gwyddoniaeth yng Nghymru**
**Papur: EIN(2) 11-06 (p4)**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i Adolygiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau o Bolisi Gwyddoniaeth yng Nghymru.

**Camau i’w cymryd:**

- Byddai Prif Weinidog Cymru yn cael gwahoddiad i gyfarfod y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn y dyfodol.

**Eitem 7: Adroddiad Hanner Blwyddyn y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**
**Papur: EIN(2) 11-06 (p5)**

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Hanner Blwyddyn y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Camau i’w cymryd:**

Byddai adroddiadau am berfformiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn y dyfodol yn cynnwys dadansoddiad manylach a ffigyrau ar gyfer pob rhanbarth.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**